Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth 19 Gorffennaf 2022 am 10:00am (Cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, APCAP (Cadeirydd Ymadawol) |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (Is-Gadeirydd Ymadawol) |
| Y Cyngh. Neil Prior | CSP (Cadeirydd Etholedig, gadawodd am 11:15am) |
| Philip Kloer | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, BIP Hywel Dda (Is-Gadeirydd Etholedig) |
| Dr Steven Jones (SPJ) | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, CSP |
| Andrea Winterton | Rheolwr Gwasanaeth Morol, Gweithrediadau, CNC |
| Mydrian Harries | Pennaeth Corfforaethol Atal a Gwarchod, GTA CGC |
| Anna Malloy | Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chyfathrebu, Porthladd Aberdaugleddau |
| David Evans | Pennaeth Cynorthwyol, Coleg Sir Benfro |
| Iwan Thomas | Prif Weithredwr, PLANED |
| Richard Brown | Prif Weithredwr Cynorthwyol, CSP |
| Christine Harley | Pennaeth Uned Gyflawni Leol Dyfed Powys, GPaChEM |
| Elaine Lorton | Cyfarwyddwr Sirol, Sir Benfro, BIP Hywel Dda |
| Y Cyngh. Elwyn Williams | Cadeirydd Awdurdod Tân CGC |
| Rebecca Evans | Uwch Swyddog Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Shaun Bowen | Prif Arolygydd, Heddlu Dyfed Powys |
| William Berharrell | BIPHDd |

*Cymorth/Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Jemma Rees | Swyddog Cymorth Partneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Amy Richmond-Jones | Gwasanaeth Tân ac Achub CGC |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Will Bramble | Prif Weithredwr, CSP |
| Yr UA Anthony Evans | Heddlu Dyfed Powys |
| Anna Bird | Pennaeth Datblygu Partneriaeth Strategol, BIP Hywel Dda |
| Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |
| Jo McCarthy | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, BIPHDd |
| Tom Sawyer | Prif Weithredwr, Porthladd Aberdaugleddau |
| Darren Mutter | Pennaeth Gwasanaethau Plant, CSP |
| Jonathan Griffiths | Pennaeth Gofal Cymdeithasol a Thai, Cyngor Sir Penfro |
| Maria Battle | Cadeirydd, BIP Hywel Dda |

Dechreuodd y cyfarfod am 10:05am.

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Fe wnaeth TJ groesawu'r BGC ac fe restrwyd yr ymddiheuriadau uchod.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Log Gweithredu

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2022 yn gywir. Cadarnhaodd NE fod y Cylch Gorchwyl wedi cael ei ddiwygio i gynnwys manylion cyfarfodydd rhithwir a hybrid.

## 3. Enwebu Cadeirydd ac Is-Gadeirydd

Roedd NP wedi cael ei enwebu ar gyfer rôl y Cadeirydd gan TJ, ac fe gymeradwywyd hyn gan y BGC. Diolchodd NP i TJ am ei waith fel Cadeirydd dros y 5 mlynedd ddiwethaf ac eglurodd na wnaeth wirfoddoli ar gyfer y rôl yn y cyfarfod diwethaf gan bod angen rhagor o wybodaeth arno am yr hyn yr oedd y rôl yn ei olygu. Darparodd gefndir i'w waith, gan ddweud iddo gael ei ethol gyntaf yn 2017 ac ymuno â'r Cabinet, gan ddal y portffolio trawsnewid. Ar ôl cael ei ail-ethol yn 2022, mae bellach yn dal y portffolio cymunedau ac mae'n awyddus i arloesi yn y maes hwnnw ac mae'n ystyried bod rôl cadeirydd y BGC yn gyfle da i symud y gwaith cyfredol yn ei flaen. Estynnodd NP wahoddiad i holl aelodau'r BGC gysylltu i gael sgyrsiau.

Dywedodd NE y bu dau enwebiad ar gyfer rôl yr Is-Gadeirydd, sef SL a PK. Wedi i'r ddau enwebiad gael eu heilio, estynnodd NP wahoddiad i'r ddau fynegi eu haddasrwydd i ddal rôl yr Is-Gadeirydd.

- Dywedodd SL ei bod hi wedi bod yn aelod gweithgar iawn o'r BGC gan wasanaethu fel Is-Gadeirydd hyd yma, a chadeirio grŵp ymgysylltu'r BGC. Dywedodd fod ethol cynrychiolydd o'r 3ydd sector yn Is-Gadeirydd, yn ei thyb hi, yn darparu cydbwysedd da ar gyfer gwaith y BGC. Dywedodd, pe bai'n aflwyddiannus, y byddai'n ymrwymo i barhau i gefnogi holl weithgareddau'r BGC, yn enwedig y gwaith cydgynhyrchu ac ymgysylltu.
- Dywedodd PK ei bod yn fraint cael ei enwebu, ac y gallai ddarparu safbwynt gwahanol gan bod BIPHDd yn eistedd ar dri BGC ledled y rhanbarth, fel a ddangosid gan yr eitem ar yr agenda. Dywedodd fod SL yn dod â phrofiad ac awdurdod i'r BGC ac felly y byddai'n gefnogol i'w henwebiad hi ond roedd yn teimlo y gallai cyflwyno iechyd fod yn fuddiol i waith y BGC. Nododd y gallai fod agweddau technegol y byddai angen eu gwirio gan y byddai'n Is-Gadeirydd ar un bwrdd ac yn eistedd ar ddau fwrdd arall. Fe gamodd SL a PK allan o'r cyfarfod ac fe wnaeth NP wahodd yr aelodau i rannu eu meddyliau.

Fe wnaeth NE atgoffa'r bwrdd, yn unol â Chylch Gorchwyl y BGC, mai un bleidlais i bob sefydliad oedd y drefn ac nid un i bob aelod. Yn dilyn trafodaeth ymhlith yr aelodau, penodwyd PK i rôl yr Is-Gadeirydd.
Diolchodd PK i'r bwrdd a gofynnodd i SL am gymorth gyda'r rôl.

## 4. Amcanion Llesiant a gwaith ymgysylltu/llunio gweledigaeth (Nick Evans)

Dywedodd NE fod yr amcanion wedi cael eu datblygu o'r gweithdy a gynhaliwyd ym mis Mai, ac wedi cael eu cylchredeg i'r grŵp. Bu cydweithio gyda BGCau Sir Gâr a Cheredigion i geisio cydlynu gwaith rhanbarthol. Mae'r amcanion a ddatblygwyd yn rhai lefel-uchel yn bwrpasol i

ddarparu ar gyfer gwaith â chwmpas ehangach yn y dyfodol a gofynnodd i'r BGC gymeradwyo'r amcanion i'w cyflwyno i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer y cyfnod ymgynghori statudol, sef 14 wythnos. Byddai'r ymgysylltu'n parhau yn ystod y cyfnod o 14 wythnos i oleuo'r Cynllun Llesiant ymhellach, ynghyd â mapio gwaith yn y dyfodol. Gallai gwaith presennol gael ei ddefnyddio i ddechrau gwaith ar y Cynllun Llesiant ar unwaith gan bod prosiectau cyfredol yn cyd-fynd â'r amcanion newydd a bod gweithgorau presennol ar gyfer y mwyafrif o'r amcanion. Nodwyd fod angen trafodaeth bellach ynglŷn ag amcan 1 gan nad oedd is-grŵp amlwg yn bodoli eisoes ar hyn o bryd a allai ymgymryd â'r gwaith hwn.

Dywedodd AW fod CCERA a'r is-grŵp Newid Hinsawdd wedi cael eu sefydlu ar gyfer yr amcanion blaenorol a gofynnodd a fyddai'r rhain yn cael eu diddymu ynteu a fyddent yn parhau gan weithio ar yr amcanion newydd, gan fod yn ymwybodol o'r angen i beidio â bod â gormod o weithgorau. Dywedodd TJ fod rhaid i'r BGC gynnal ffocws a pheidio â gwasgaru'r gwaith yn rhy denau a phwysleisiodd y byddai'r cyfnod ymgynghori o 14 wythnos yn bwysig i gynllunio ar gyfer cyflawni'r gwaith.

Gofynnodd RB beth fyddai'r mesur o lwyddiant fel modd i brofi i bartïon allanol bod y deilliannau'n cael eu cyflawni. Ychwanegodd NP fod y BGC yn dod gerbron y pwyllgor craffu ac felly y byddai angen profi eu bod yn cael eu cyflawni.

Gofynnodd SJ, wrth edrych ar yr is-themâu, a yw newid i economi gylchol o fewn cylch gwaith y BGC gan bod yr allyrwyr mawr yn y sir yn perthyn i'r sector preifat ac awgrymodd y dylid canolbwyntio ar feysydd eraill a fyddai'n cynnig mwy o werth gyda chanlyniadau gwell.

Gofynnodd PK beth ddylai'r ddogfen a gyflwynir i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ei gynnwys a pha un a ddylai'r BGC gynnwys y pethau y gellir eu mesur o'r gweithgareddau ond roedd yn ymwybodol y byddai hwnnw'n ddarn o waith a fyddai'n mynd â llawer o amser. Dywedodd SL y gall ac y dylai'r gwaith yn y dyfodol ddefnyddio grwpiau a seilwaith presennol ond bod angen bod yn ymwybodol y byddent yn parhau â'u gwaith eu hunain ac efallai na fyddent yn cydnabod bod yn rhan o'r BGC felly bod angen rhoi sylw i ba werth y mae'r BGC yn ei ddwyn. Mae gan y grŵp ar y cyd ddylanwad a chyllidebau sylweddol i'w defnyddio. Byddai cymunedau dyfeisgar yn alluogwr hanfodol i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

Awgrymodd NP y dylid cynnal "her trothwy'r drws" i ddisgrifio'r BGC a'i waith a gofynnodd beth oedd y cam nesaf yn y broses ar gyfer y Cynllun Llesiant. Fe ymatebodd NE gan ddweud bod y gwaith a gyflawnwyd hyd yma wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac mai'r Amcanion Llesiant gyda'r gweithgareddau enghreifftiol yw'r cyfan y mae'n ofynnol eu cyflwyno i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar y cam hwn, ac y byddai'r canlyniadau penodol a'r deilliannau disgwyliedig yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Llesiant ei hun. Byddai'r adborth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei ddefnyddio i lunio'r cynllun hefyd. Roedd yr adborth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn debygol o gynnwys awgrymiadau gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer gorau o ran y camau y gallai'r BGC eu cymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

Darparodd LR ddiweddariad ar ymgysylltu, gan nodi bod y dudalen Dweud Eich Dweud wedi cael 80-85 o ymatebion gan y cyhoedd a bod nifer o sesiynau ar gyfer rhanddeiliaid wedi cael eu cynnal gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro gydag amrywiaeth o rwydweithiau a grwpiau a bod mwy wedi'u trefnu. Aed â bwrdd rhyngweithiol i ddigwyddiadau cymunedol gyda Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a byddai'n bresennol yn y Sioe Sirol hefyd. Mae'r ymgysylltu â'r cyhoedd yn dod i ben ar 19 Awst ond byddai sesiynau ar gyfer rhanddeiliaid yn parhau gan bod y rhain yn casglu adborth

gan arbenigwyr yn y priod feysydd. Roedd y gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd wedi cael ei ddatblygu'n sensitif i ystyried materion cyfredol.

**5. Diweddariad ar y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant (Phil Kloer/Will Beharrell)**

Fe wnaeth PK gyflwyno'r prosiect, gan egluro bod ar BIPHDd eisiau newid y ffordd o feddwl i fodel cymdeithasol ar gyfer iechyd a llesiant a'i fod yn gobeithio cydweithio gyda BGCau, gan ddweud bod gan wasanaethau iechyd ddiwylliant cynhenid o drin a thrwsio pobl yn hytrach nag atal afiechyd a bod angen symud tuag at yr olaf o'r rhain. Wedyn rhoddodd PK gyflwyniad a oedd yn nodi sefyllfa'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd.

Dywedodd RB fod Prifysgol Abertawe wedi rhoi cyflwyniad ar atal yn CSP, gan amlygu bod y maes a dargedwyd gan CSP wedi bod yn gul yn flaenorol, yn enwedig yn sgîl colli capasiti dros y blynyddoedd diwethaf i ymdrin â materion hirdymor gyda ffocws o ganlyniad ar fynd i'r afael â materion byrdymor yn unig. Mae angen ailadeiladu'r maes er mai buddsoddiad oedd y broblem gan na welir adenillion am 25-30 mlynedd, ond roedd hyn yn gyfle gwych. Roedd ar PK eisiau cysylltu â Phrifysgol Abertawe mewn perthynas â'r gwaith atal.

Dywedodd SL fod Sir Benfro wedi bod yn ceisio ymdrin â'r maes hwn trwy Fwrdd Atal Sir Benfro a oedd wedi trawsnewid yn gymorth cymunedol trwy fodel integreiddio a ddatblygwyd. Mae prosiect wedi cael ei sefydlu gan ddefnyddio cyllid y loteri i dreialu system gofal integredig cymunedol yng ngogledd ddwyrain Sir Benfro, lle mae'r system yn dameidiog ac y dylai fod yn unffurf. Byddai cyflawni'r deilliannau'n amrywio gan ddibynnu ar natur yr ardal i gyrraedd yr un deilliant, gan y byddai gwahanol fannau cychwyn. Yr her fydd newid y diwylliant, yn enwedig o fewn y GIG. Daw'r rhan fwyaf o waith da yn y gymuned o safbwynt iechyd, a ddylai gael ei uno gan y BGC. Mae a wnelo atal nid dim ond ag iechyd, mae'n fater trawsbynciol torfol sy'n hwyluso'r gallu i fyw'n iach. Cynigiodd SL gwrdd â PK i rannu gwybodaeth am waith cyfredol yn y gymuned.

Dywedodd IT fod bwyd wedi cael ei nodi 18 mis yn ôl fel mater y mae'n bwysig ymdrin ag ef ac fe ysgrifennwyd adroddiad Miller ar y cyflenwad lleol, gan awgrymu ei ddefnyddio ar gyfer cudd-wybodaeth. Mae Sir Benfro hefyd yn arwain ar y testun ac yn cydweithio'n agos gyda Sir Gâr a Cheredigion. Mae angen defnyddio rhwydweithiau presennol i osgoi syrffed i greu llwybr cyflym a dechrau gwaith ystyrlon, blaengar.

Awgrymodd SJ y dylid defnyddio'r rhaglen Dechrau'n Deg i adnabod asedau lleol a dywedodd PK fod dau brif gwestiwn ar gyfer y prosiect, sef ymdrin ag arweinyddiaeth o fewn y gymuned a sut i ddyrannu adnoddau i bob cymuned, a allai fod yn feysydd gwahanol y mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn ymdrin â hwy, er y gallai fod yn ddefnyddiol dysgu ohonynt.

Dywedodd RE mai un o'r anawsterau mawr y byddid yn dod ar eu traws yw cael mynediad at grwpiau sy'n byw mewn anhrefn gymharol a bod angen canfod sut i gefnogi'r teuluoedd hynny, a bod yn ymwybodol y gofynnir i'r un teuluoedd fod yn gydnerth dro ar ôl tro yn hytrach na'u cynorthwyo. Os nad yw'r seilwaith yn galluogi teuluoedd a chymunedau, ni fydd yn fuddiol a dylai'r prosiect gael "ei fwydo gan gyllid" nid "ei arwain gan gyllid". Mae angen newid yr amgylchedd i newid y dyfodol i wneud gwahaniaeth mesuradwy. Dywedodd SL mai gyda'r materion a nodwyd y mae rôl y BGC yn berthnasol gan y gall teuluoedd fod â gwahanol faterion ond a hwythau'n gorfod cael mynediad at wasanaethau'n unigol sy'n creu anawsterau a bod cyfeirio heb gymorth dilynol ddim yn gweithio. Mae angen gwthio ffiniau sefydliadol i greu trawsgroesiad gan ei bod yn debygol bod y rhan fwyaf o sefydliadau'n gweithio gyda'r un bobl a theuluoedd. Roedd y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn un a oedd wedi'i thargedu'n arbennig ac fe gafodd swm mawr o arian ond efallai nad yw deilliannau wedi gwella.

Gofynnodd PK a allai'r model llesiant cymdeithasol gael ei gynnwys fel rhan o'r ail amcan llesiant ac a fyddai'r BGC yn mabwysiadu'r model, gan hwyluso proses integreiddio. Dywedodd NE fod cyfarfod wedi'i drefnu gan gydweithwyr iechyd gyda chydweithwyr y BGC o Sir Gâr a Cheredigion mewn perthynas â'r model.

## 6. Unrhyw Fater Arall

Darparodd AW ddiweddariad o gyfarfod is-grŵp Newid Hinsawdd y BGC lle cyflwynwyd y drafft terfynol o'r strategaeth ymaddasu a diolchodd i bawb a fu'n rhan o'i chreu. Roedd 24 o gamau gweithredu wedi cael eu hadnabod dan bedwar maes ac roedd y cyfle ar gyfer adborth yn dod i ben ar ddiwedd yr wythnos i'r adroddiad gael ei gwblhau. Y gobaith oedd y gallai'r strategaeth gael ei chynnwys yn y trydydd amcan llesiant ac roedd yn ymddangos bod Sir Benfro ar flaen y gad yng Nghymru ar gyfer cynhyrchu strategaeth seiliedig-ar-dystiolaeth. Y cam nesaf oedd bod y strategaeth derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y BGC.

Darparodd SL ddiweddariad o grŵp Ymgysylltu'r BGC lle awgrymwyd ffurfio Rhwydwaith Ymarferwyr Cydgynhyrchu ac Ymgysylltu ac roedd Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro'n hapus i gefnogi'r gwaith yn y dyfodol. Ceir nifer o ymarferwyr da ledled Sir Benfro a byddai'n werthfawr eu cynnull i alluogi sgyrsiau cymunedol i ddigwydd ynglŷn â thlodi, newid hinsawdd a meysydd eraill.
Roedd cyfle i bartneriaid y BGC gael mynediad at Engagement HQ trwy drwydded CSP a dylai unrhyw sefydliadau a chanddynt ddiddordeb gysylltu ac awgrymwyd hefyd ychwanegu cydlynu ymgysylltu at agenda cyfarfod nesaf y BGC. Awgrymodd PK y gallai'r grŵp ymgysylltu weithredu fel y galluogwr ar gyfer gwaith dan amcan pedwar. Dywedodd NE fod nifer o eitemau ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf ond y gellid o bosibl ychwanegu hon fel eitem, er y byddai adborth o'r sesiynau ymgysylltu a phroses i ddyrannu gwaith ar gyfer y Cynllun Llesiant i'r grwpiau perthnasol yn y cyfarfod nesaf. Fe ychwanegodd LR y byddai'r cyfarfod nesaf yn bwrw golwg fanwl ar y Strategaeth Ymaddasu i Newid Hinsawdd.

Dywedodd NP fod ar Lywodraeth Cymru eisiau ymgysylltu â grwpiau'r BGCau mewn perthynas â'r polisi ymgysylltu â chymunedau ac anogodd y BGC i fod yn rhan o hynny. Dywedodd SL fod Llywodraeth Cymru'n gofyn i BGCau gymryd rhan mewn cynlluniau peilot a'i bod yn awyddus i Sir Benfro wirfoddoli. Nid oedd NE yn ymwybodol o'r gweithgarwch hwn ond byddai'n ymchwilio i weld a oedd diddordeb a dywedodd NP y byddai'n cyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru i fynegi'r diddordeb.

Fe wnaeth NP wahodd yr holl aelodau i gysylltu ag ef i gael sgwrs am unrhyw beth sy'n ymwneud â'r BGC gan ei fod yn awyddus fel y Cadeirydd newydd i ddysgu mwy am y ffordd y mae'n gweithio.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:10pm.